# YR ATODLENNI

## ATODLEN 5

Rheoliad 35

## DIWYGIADAU I DDEDDFWRIAETH

**Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005**

**1.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 13 (cynllun datblygu lleol: materion ychwanegol y dylid rhoi sylw iddynt)—

(a) yn lle paragraff (1)(c) rhodder—

"(c) amcanion atal damweiniau mawr a chyfyngu ar ganlyniadau damweiniau o'r fath ar iechyd dynol a'r amgylchedd drwy fynd ar drywydd yr amcanion hynny drwy'r rheolaethau a ddisgrifir yn Erthygl 13 o Gyfarwyddeb 2012/18/EU;";

(b) yn lle paragraff (ch) rhodder—

"(ch) yr angen, yn y tymor hir—

(i) i gadw pellteroedd diogelwch priodol rhwng sefydliadau ac ardaloedd preswyl, adeiladau ac ardaloedd a ddefnyddir gan y cyhoedd, ardaloedd hamdden, a, chyn belled â phosibl, lwybrau trafnidiaeth pwysig;

(ii) i warchod ardaloedd o sensitifrwydd naturiol penodol neu o ddiddordeb penodol yng nghyffiniau'r sefydliadau, pan fo hynny'n briodol drwy bellteroedd diogelwch priodol neu fesurau perthnasol eraill;

(iii) yn achos sefydliadau sy'n bodoli eisoes, i gymryd mesurau technegol ychwanegol yn unol ag Erthygl 5 o Gyfarwyddeb 2012/18/EU er mwyn peidio â chynyddu'r risgiau i iechyd dynol a'r amgylchedd.";

(c) ym mharagraff (2), yn lle "yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 96/82/EC (fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2003/105/EC)" rhodder "yng Nghyfarwyddeb 2012/18/EU".

**Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y Tabl yn Atodlen 4 (ymgyngoriadau cyn rhoi caniatâd cynllunio), ym mharagraff (s)—

(a) yn lle'r geiriau yn yr ail golofn (disgrifiad o'r datblygiad) rhodder—

"Datblygiad—

(i) sy'n cynnwys lleoli sefydliadau newydd;

(ii) sy'n cynnwys addasiadau i sefydliadau presennol y mae Erthygl 11 o Gyfarwyddeb 2012/18/EU yn eu cwmpasu; neu

---

(**1**) O.S. 2005/2839 (Cy. 203), y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.
(**2**) O.S. 2012/801 (Cy. 110).

(iii) sy'n newydd, gan gynnwys llwybrau trafnidiaeth, lleoliadau a ddefnyddir gan y cyhoedd ac ardaloedd preswyl yng nghyffiniau sefydliadau presennol, lle gallai'r lleoliad neu'r datblygiad fod yn ffynhonnell y risg o ddamwain fawr, neu gynyddu'r risg neu ganlyniadau damwain fawr.";

(b) yn lle'r geiriau yn y drydedd golofn (ymgynghorai) rhodder—

""Awdurdod COMAH cymwys, ac mewn perthynas â datblygiad sy'n dod o fewn paragraff (iii), unrhyw berson sydd, yn ôl y gofrestr a gedwir gan yr awdurdod sylweddau peryglus o dan reoliad 22 o Reoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015, y person sy'n rheoli'r tir y mae unrhyw sefydliad presennol dan sylw wedi ei leoli arno";";

(c) yn Atodlen 4 yn y paragraff sy'n delio â Dehongli'r Tabl, yn lle paragraff (ng) rhodder—

"(ng) ym mharagraff (s)—

(i) mae i'r ymadroddion a ddefnyddir yn y paragraff hwnnw ac yng Nghyfarwyddeb 2012/18/EU yr un ystyr ag a roddir i'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn y Gyfarwyddeb honno; a

(ii) ystyr "awdurdod COMAH cymwys" ("*COMAH competent authority*") yw—

(aa) mewn perthynas â safle niwclear perthnasol, y Swyddfa dros Reoli Niwclear a Chorff Adnoddau Naturiol Cymru yn gweithredu ar y cyd;

(bb) fel arall, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Chorff Adnoddau Naturiol Cymru yn gweithredu ar y cyd."